

PHAER (neu PHAYER), THOMAS (1510? - 1560), cyfreithiwr, meddyg, a chyfieithydd

Enw: Thomas Phaer

Dyddiad geni: 1510?

Dyddiad marw: 1560

Priod: Anne Phaer (née Walter)

Plentyn: Elisabeth Vaughan (née Phaer)

Rhiant: Thomas Phaer

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfreithiwr, meddyg, a chyfieithydd

Maes gweithgaredd: Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: John James Jones

brodor o Norwich, a mab Thomas Phaer o'r lle hwnnw. Y mae'n debyg fod ei deulu o darddiad Ffleminaid. Addysgwyd ef yn Rhydychen a Lincoln's Inn. Pan benodwyd ef yn gyfreithiwr i lys y gororau Cymreig, daeth i fyw yng Nghilgerran, Sir Benfro, lle y treuliodd y gweddill o'i oes; bu farw Awst 1560 a chladdwyd ef yn eglwys Cilgerran. Priododd ag Anne, merch Thomas Walter, o Gaerfyrddin. Yr oedd yn awdur llyfrau ar y gyfraith. Trodd at ffisygwriaeth a chyhoeddodd gyfieithiad Saesneg o *Regimen Sanitatis Salerni*. Ond y mae'n nodedig yn bennaf am ei gyfieithiad disglair o 'Aeneid' Vergil, o'r hwn y cwplodd naw llyfr a rhan o'r degfed.

Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r awdurdodau a enwir yno

H. Blackwell, [NLW MS 9269A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

British Museum. Catalogue of Printed Books (1882)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Thomas Phaer](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [40251528](#)

Wikidata: [Q7793139](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

